**Grwp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol**
**Economy, Skills and Natural Resources Group**

**Cyfarwyddwr Cyffredinol - Director General**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mr Nick Ramsey AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

27 Mehefin 2019

Annwyl Gadeirydd

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Ystyried adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar gynllun tocynnau bws rhatach i bobl ifanc Llywodraeth Cymru – FyNgherdynTeithio**

Yn ystod sesiwn casglu tystiolaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 20 Mai, gwnaethom gytuno i roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am nifer o feysydd. Roeddent fel a ganlyn:

- nifer y cardiau teithio gweithredol a byw a nifer y cardiau nad ydynt wedi cael eu defnyddio, a'r ffigurau ar gyfer pobl yn yr ystod oedran newydd sydd wedi manteisio ar y cynllun;
- manylion y mecanwaith digolledu a ddefnyddir i ad-dalu gweithredwyr bysiau;
- manylion y gyllideb ddiwygiedig ar gyfer y cynllun ar ôl iddo gael ei estyn i gynnwys pobl 19–21 mlwydd oed, a'r dadansoddiad a oedd yn llywio'r gyllideb ddiwygiedig.

**Nifer y cardiau teithio gweithredol a byw a nifer y cardiau nad ydynt wedi cael eu defnyddio, a'r ffigurau ar gyfer pobl yn yr ystod oedran newydd sydd wedi manteisio ar y cynllun**

Ar 9 Mai 2019 roedd 17,795 o gardiau teithio byw (dilys ar gyfer teithio) – 16,961 ar gyfer pobl 16–18 mlwydd oed a 834 ar gyfer pobl 19–21 mlwydd oed.

O'r 17,795 o gardiau teithio byw hyn, defnyddiwyd 2,287 o gardiau i brynu tocynnau lle cafodd y trafodiad ei gofnodi'n electronig (roedd 2,226 o'r rhain yn eiddo i bobl 16–18 mlwydd oed a 61 yn eiddo i bobl 19–21 mlwydd oed). Cafodd cyfanswm o 29,344 o docynnau clyfar eu prynu – byddai rhai ohonynt wedi bod yn ddilys ar gyfer mwy nag un daith. Yn anffodus, gan nad yw pob trafodiad yn cael ei gofnodi'n electronig, nid yw'n bosibl nodi nifer y cardiau teithio nad ydynt wedi cael eu defnyddio.

**Manylion y mecanwaith digolledu a ddefnyddir i ad-dalu gweithredwyr bysiau**

Ers 1 Ebrill 2017, rydym wedi parhau i ddigolledu gweithredwyr bysiau'n ôl-weithredol – gan dalu un rhan o dair yn llai na'r pris priodol i oedolion a godir gan bob darparwr gwasanaethau bysiau am gludo pobl 16–18 i ddechrau, ac wedyn pobl 16–21 ar ôl codi'r oedran uchaf. Pan dderbynnir hawliau gan weithredwyr, mae hawliadau dilys yn cael eu talu o fewn 14 diwrnod gwaith.

**Manylion y gyllideb ddiwygiedig ar gyfer y cynllun ar ôl iddo gael ei estyn i gynnwys pobl 19–21 mlwydd oed, a'r dadansoddiad a oedd yn llywio'r gyllideb ddiwygiedig.**

Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd/Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn/Tel: 02920 82 6162
E-Bost/E-Mail: andrew.slade@gov.wales

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Mae Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth wedi cymeradwyo cyllid o hyd at £2 miliwn (ac eithrio TAW) yn 2019–20, ar gyfer parhau i gynnal cynllun tocynnau bysiau rhatach i bobl ifanc, gan gynnwys costau gweinyddu a marchnata a hyrwyddo ar gyfer yr ystod oedran estynedig sy'n cynnwys pobl 16–21.

Roedd yr amcangyfrif o effaith flynyddol codi'r oedran cymhwysedd uchaf i 21 mlwydd oedd, gan dalu un rhan o dair yn llai na'r pris priodol i oedolion, yn seiliedig ar y rhagdybiaethau canlynol (gan ddefnyddio data'r ONS):


| **Oedran uchaf** | **16–18** | **16–21** |
|---|---:|---:|
| Y Boblogaeth gymwys | 101,541 | 223,366 |
| Amcangyfrif o'r nifer a fyddai'n manteisio ar y cynllun | 12% | 12% |
| Amcangyfrif o nifer y cardiau teithio bob blwyddyn | 12,185 | 26,804 |
| Amcangyfrif o nifer y teithiau fesul cerdyn teithio bob blwyddyn | 110 | 110 |
| Amcangyfrif o nifer y teithiau bob blwyddyn | 1,340,341 | 2,948,341 |
| Iawndal cyfartalog bob taith | 0.6 | 0.6 |
| Amcangyfrif o'r gost | £804,205 | £1,769,059 |

**Noder:**

- Y nifer a fanteisiodd ar y cynllun a'r cyfraddau o iawndal ar gyfer cynnig y cynllun i bobl 16–18 mlwydd oed oedd y sail ar gyfer amcangyfrif nifer y teithiau ar gyfer yr ystod oedran estynedig.
- Nid yw'r amcangyfrif o'r gost ar gyfer pobl 16–21 mlwydd oed yn y tabl yn cynnwys costau gweinyddu ychwanegol a chostau marchnata a hyrwyddo o hyd at £150,000 ar gyfer yr ystod oedran estynedig.

Croeso ichi gysylltu â mi os hoffech ragor o wybodaeth.

Yn gywir



**ANDREW SLADE**
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol